


Rhif ymchwil gymdeithasol: 98/2025

Dyddiad cyhoeddi: 16/10/2025

Hanfodion Sgiliau 2035: Amcanestyniadau o'r farchnad lafur a sgiliau ar gyfer y Deyrnas Unedig (papur crynhoi Cymru)



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Hanfodion Sgiliau 2035: Amcanestyniadau o'r farchnad lafur a sgiliau ar gyfer y Deyrnas Unedig. Papur crynhoi Cymru

Awdur: James Carey, Llywodraeth Cymru

Yr Adroddiad Ymchwil Llawn: Carey, J. (2025). Hanfodion Sgiliau 2035: Amcanestyniadau o'r farchnad lafur a sgiliau ar gyfer y Deyrnas Unedig. Papur crynhoi Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 98/2025

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/hanfodion-sgiliau-2035>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Cangen Gwybodaeth am y Farchnad Lafur

Yr Is-adran Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o'r ffigurau	3
Geirfa	4
1. Cyflwyniad a chefnidir	5
2. Methodoleg	6
3. Prif amcanestyniadau cyflogaeth	8
4. Amcanestyniadau yn ôl sector diwydiannol.....	10
5. Amcanestyniadau yn ôl galwedigaeth	14
6. Amcanestyniadau yn ôl cymhwyster	20
7. Casgliadau	23
Atodiad A: Diffiniadau sector.....	24
Atodiad B: Diffiniadau galwedigaeth	25

Rhestr o dablau

Tabl 3.1: Y newid a ragwelir mewn cyflogaeth yng ngwledydd y Deyrnas Unedig a rhanbarthau Lloegr, 2020-2035.....	9
Tabl 4.1: Y newid a ragwelir mewn cyflogaeth yng Nghymru yn ôl sector eang, 2020-2035	11
Tabl 4.2: Y newid a ragwelir mewn cyflogaeth yng Nghymru, yn ôl sector, 2020-2035	12
Tabl 5.1: Y newid a ragwelir mewn cyflogaeth yng Nghymru, yn ôl Prif alwedigaeth, 2020-2035	16
Tabl 5.2: Y newid a ragwelir mewn cyflogaeth yng Nghymru, yn ôl is-brif alwedigaeth, 2020-2035	17
Tabl 6.1: Y newid a ragwelir yn lefel cymwysterau'r rhai sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru, 2020-2035.....	22
Tabl A.1: Diffiniadau sector.....	24
Tabl B.1: Diffiniadau galwedigaeth.....	25

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 4.1: Y newid a ragwelir mewn cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, yn ôl sector, 2020-2035	13
Ffigur 5.1: Y newid a ragwelir mewn cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, yn ôl is-brif alwedigaeth, 2020-2035	18
Ffigur 6.1: Amcanestyniadau o gyflogaeth yn ôl lefel cymhwyster 2020-2035	21

Geirfa

Galw am ehangu

Y newid net yn nifer y swyddi, a all fod yn negyddol. Cyfeirir at hyn fel newid yn nhablau'r adroddiad.

Galw am weithwyr newydd

Yr angen i gyflogwyr gael gweithwyr newydd yn lle'r rhai sy'n gadael y farchnad lafur, am resymau sy'n cynnwys ymddeol, teulu a marwoldeb.

Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC)

Defnyddir y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol i ddosbarthu sefydliadau busnes ac unedau ystadegol eraill yn ôl y math o weithgarwch economaidd maent yn ymwneud ag ef.

Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC)

Mae'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol yn ddosbarthiad cyffredin o wybodaeth alwedigaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig. Yng nghyd-destun y dosbarthiad, mae swyddi'n cael eu dosbarthu yn ôl lefel eu sgiliau a'u cynnwys o ran sgiliau.

Cyfanswm gofynion

Cyfanswm y galw am ehangu ac am weithwyr newydd.

1. Cyflwyniad a chefnidir

Mae Hanfodion Sgiliau 2035: sgiliau hanfodol ar gyfer gweithlu yfory yn bartneriaeth ymchwil strategol dan arweiniad y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysgol ac a gyllidir gan Sefydliad Nuffield. Ei nod yw nodi'r sgiliau cyflogaeth hanfodol y bydd eu hangen ar bobl i weithio erbyn 2035.

Fel rhan o'r gwaith hwn, fe wnaeth y bartneriaeth gomisiynu'r Sefydliad Ymchwil Cyflogaeth ym Mhrifysgol Warwick, a oedd yn gweithio ar y cyd â Cambridge Econometrics, i gynhyrchu diweddariad o'u rhagamcanion cyflogaeth, a gyhoeddwyd yn flaenorol o dan faner Dyfodol Gwaith.

Mae'r Adran Addysg wedi cyllido dadansoddiadau is-ranbarthol, sy'n estyniad o'r amcanestyniadau hyn. Mae'r rhain ar gael i ddefnyddwyr ar ffurf llyfrau gwaith. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o rywfaint o'r data allweddol ar gyfer Cymru a gymerwyd o'r llyfrau gwaith hyn.

Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r amcanestyniadau a gyflwynir yn Hanfodion Sgiliau 2035, fel gyda phob rhagamcan a rhagolwg, a dylid eu hystyried yn arwydd o dueddiadau a threfn maint tebygol o ystyried parhad patrymau ymddygiad a pherfformiad yn y gorffennol, yn hytrach na rhagolygon manwl ar gyfer y dyfodol. Bydd dibynadwyedd data hanesyddol a rhagamcanol yn lleihau gyda mwy o ddadgyfuno. Datblygwyd yr amcanestyniadau yn 2021/22, ar adeg o gryn ansicrwydd economaidd yn dilyn Brexit a phandemig Covid-19. Er bod patrymau cyflogaeth newidiol yn ôl sector a galwedigaeth yn cael eu gyrru'n bennaf gan dueddiadau tymor hwy, rhaid cadw'r amgylchiadau hyn mewn cof a rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r wybodaeth. Er bod Hanfodion Sgiliau yn cyfeirio at 'gyflogaeth', oni nodir yn wahanol, nifer y swyddi yw hyn. Am y rheswm hwn, bydd y ffigurau yn y papur hwn ar gyfer 2020 yn fwy nag amcangyfrifon cyflogaeth Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth neu Arolwg o'r Llafurlu 2020, gan y bydd gan rai unigolion fwy nag un swydd.

2. Methodoleg

Mae amcanestyniadau cyflogaeth Hanfodion Sgiliau 2035 yn cyflwyno tueddiadau hanesyddol ac amcanestyniadau cyflogaeth yn y dyfodol yn ôl ffactorau fel sector, galwedigaeth a lefel cymhwyster. Mae methodoleg fanwl a chafeatau ar gael yn yr Adroddiad Technegol ar adnoddau a dulliau. Mae cyfres o allbynnau ar amcanestyniadau ar lefel y Deyrnas Unedig ar gael.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r llyfrau gwaith ar lefel y gwledydd a rhanbarthau Lloegr a gynhyrchwyd i grynhoi canfyddiadau ar lefel Cymru. Mae canllawiau cyffredinol a chanllaw i ddefnyddwyr y Llyfr Gwaith ar gael ochr yn ochr â'r llyfrau gwaith ar lefelau'r gwledydd a rhanbarthau Lloegr.

Daw'r ffigurau sydd ar gael ar gyfer Cymru o'r amcanestyniadau gwaelodlin sy'n tybio y bydd tueddiadau technolegol a phontio amgylcheddol presennol yn parhau ar gyflymder tebyg yn y dyfodol. Mae'r Sefydliad Ymchwil Cyflogaeth hefyd wedi cynhyrchu senarios amgen ar lefel y Deyrnas Unedig sy'n ystyried canlyniadau posibl eraill, yn seiliedig ar ffactorau fel mabwysiadu technoleg yn gyflymach; mwy o ffocws ar yr amgylchedd; a darparu addysg o ansawdd uwch, gwell darpariaeth gofal iechyd, a gwell gwasanaethau gofal i gynorthwyo'r boblogaeth sy'n heneiddio. Sylwch nad yw ffigurau o'r senarios amgen hyn ar gael ar gyfer Cymru.

Mae'r amcanestyniadau gwaelodlin yn seiliedig ar y tybiaethau isod (o adran 2.5.1 yr Adroddiad Gwaelodlin):

- mae awtomeiddio'n parhau i ddigwydd ar y cyflymder presennol, ond nid yw'n gorfodi trawsnewidiad esblygol sy'n uwch na'r hyn a welwyd mewn tueddiadau diweddar (e.e. defnyddio robotiaid a systemau deallusrwydd artiffisial yn gyflymach ar draws pob sector economaidd).
- bod polisiâu amgylcheddol a weithredwyd hyd yma yn cael eu hymestyn, ac nad oes yr un ohonynt yn cael eu gwrthdroi, ond nid yw'n tybio bod unrhyw bolisi newydd (a mwy uchelgeisiol) yn cael eu hychwanegu, gan gynnwys ymrwymïadau datgarboneiddio pellach (i gyflawni'r targed 'sero net' fel defnyddio ynni adnewyddadwy a thechnolegau carbon isel ar raddfa fawr, cerbydau trydan a phympiau gwres).
- dim buddsoddiad pellach o'r newydd mewn addysg, iechyd a gofal cymdeithasol (yn dilyn pandemig Covid-19, cynyddodd y llywodraeth wariant ar wasanaethau cyhoeddus dros dro i helpu i adfer a chydbwysu'r economi yn sgil y sioc, ond yn yr hirdymor bydd gwariant yn y meysydd hyn yn dychwelyd i gynlluniau cyn y pandemig (cyni) i raddau helaeth).

Datblygwyd yr amcanestyniadau yn 2021 a 2022, ar adeg o ansicrwydd economaidd sylweddol yn dilyn Brexit a phandemig Covid-19. Er bod patrymau cyflogaeth newidiol yn ôl sector a galwedigaeth yn cael eu gyrru'n bennaf gan dueddiadau tymor hwy, rhaid cadw'r amgylchiadau hyn mewn cof a rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r wybodaeth. Mae cynhyrchwyr yr amcanestyniadau'n nodi mai'r nod yw darparu meincnod defnyddiol i'w

ystyried yn hytrach na rhagolwg lleol sydd wedi ei ystyried yn llawn. Dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol o'r cafeatau.

Wrth ddefnyddio'r gwaith hwn i lywio penderfyniadau, dylid canolbwyntio ar y tueddiadau cyffredinol a ragwelir, nid ar ffigurau penodol. Mae'r allbynnau Hanfodion Sgiliau yn y papur hwn wedi cael eu talgrynnu i'r cant agosaf. Mae'r canrannau'n seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu. Er bod y sylwebaeth yn y papur hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ffigurau 2020 a 2035, mae ffigurau ar gyfer 2025 hefyd wedi cael eu darparu drwyddi draw.

Er bod tablau gwledydd wedi cael eu cyhoeddi i ddechrau yn 2023, cawsant eu diweddarau ym mis Awst 2024 i ddefnyddio data diwygiedig y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r Arolwg o'r Llafurlu. Cafodd y data hwn ei ddiweddarau i gywiro codau gwallau data galwedigaethol 2021 ac yna cyhoeddwyd amcanestyniadau diwygiedig yn seiliedig ar ddata diwygiedig yr Arolwg o'r Llafurlu. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y ffigurau diweddaraf hyn.

Mae'r tablau'n darparu'r galw am ehangu, y galw am weithwyr newydd a chyfanswm y gofyniad. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- galw am ehangu – y newid net yn nifer y swyddi, a all fod yn negyddol. Cyfeirir at hyn fel newid yn y tablau;
- galw am weithwyr newydd – yr angen i gyflogwyr gael gweithwyr newydd yn lle'r rhai sy'n gadael y farchnad lafur, am resymau sy'n cynnwys ymddeol, teulu a marwoldeb; a
- chyfanswm y gofyn - cyfanswm y galw am ehangu a gweithwyr newydd.

Oherwydd cyfyngiadau data, mae amcanestyniadau galw am weithwyr newydd yn tybio bod patrymau cyffredinol strwythur oedran a chyfraddau llif yn gyffredin ar draws pob sector a rhanbarth. Ni fydd hyn yn wir yn ymarferol, er eu bod yn benodol i alwedigaeth ar lefel y Deyrnas Unedig. Am y rheswm hwn, dylid ystyried canlyniadau'r galw am wasanaethau newydd fel rhai dangosol.

Dim ond un darn o'r jig-so tystiolaeth sydd ei angen yw amcanestyniadau cyflogaeth, fel y rhai o'r prosiect Hanfodion Sgiliau, wrth benderfynu sut beth fydd dyfodol y farchnad lafur. Er enghraifft, os oedd amcanestyniadau Hanfodion Sgiliau yn cael eu defnyddio fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllunio darpariaeth yn y dyfodol, dylid hefyd ystyried symudiadau presennol a disgwyliedig yn yr economi a'r farchnad lafur (er enghraifft, prosiectau seilwaith mawr sy'n dod i'r amlwg) nad ydynt o bosibl yn cael eu canfod drwy Hanfodion Sgiliau, yn enwedig y rhai sy'n digwydd ar lefel leol neu ranbarthol, ynghyd â'r ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig drwy lwybrau eraill.

Ceir manylion diffiniadau o sectorau a galwedigaethau yn Atodiad A ac Atodiad B.

3. Prif amcanestyniadau cyflogaeth

Awgrymir yn amcanestyniadau Hanfodion Sgiliau y rhagwelir y bydd cyflogaeth yng Nghymru yn tyfu 5.4% rhwng 2020 a 2035 (Tabl 3.1). Rhagwelir y bydd cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig yn cynyddu 7.4% dros yr un cyfnod. Mae'r cynnydd a ragwelir yng Nghymru, sef 5.4%, yn is na'r cynnydd yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr, ond yn uwch nag yn rhanbarthau Swydd Efrog a Humber, Dwyrain Canolbarth Lloegr a Gogledd Ddwyrain Lloegr.

Rhagwelir cynnydd mewn cyflogaeth o 1.45 miliwn i 1.53 miliwn yng Nghymru, gan arwain at tua 78,400 yn fwy o bobl mewn cyflogaeth yn 2035 o'i gymharu â 2020. Yn ogystal â'r cynnydd yn nifer y bobl mewn cyflogaeth, mae angen hefyd cael gweithwyr newydd yn lle'r rhai sydd wedi gadael y farchnad lafur am amrywiaeth o resymau. Gelwir hyn yn alw am weithwyr newydd. Mae'r galw hwn am weithwyr newydd yn llawer mwy na'r newid net mewn cyflogaeth (galw am ehangu) sef 710,400, gan arwain at amcangyfrif y bydd y gofyniad yn gyfanswm o 788,800 rhwng 2020 a 2035.

Yn ogystal â'r canfyddiadau cyffredinol hyn, mae Hanfodion Sgiliau hefyd yn edrych ar amcanestyniadau o gyflogaeth yn y dyfodol yn ôl sector, galwedigaeth a lefel cymhwyster.

Tabl 3.1: Y newid a ragwelir mewn cyflogaeth yng ngwledydd y Deyrnas Unedig a rhanbarthau Lloegr, 2020 i 2035

	2020	2025	2035	Newid 2020-2035	% y newid 2020-2035	Galw am weithwyr newydd	Cyfanswm gofynion
Cymru	1,449,600	1,474,500	1,528,000	78,400	5.4%	710,400	788,800
Gogledd Iwerddon	905,300	942,000	986,000	80,700	8.9%	465,200	545,900
Yr Alban	2,760,400	2,851,100	2,983,800	223,400	8.1%	1,370,700	1,594,100
Lloegr	29,859,700	30,754,700	32,070,100	2,210,400	7.4%	14,988,100	17,198,500
Dwyrain Lloegr	3,174,200	3,280,300	3,444,300	270,100	8.5%	1,606,500	1,876,600
Dwyrain Canolbarth Lloegr	2,404,200	2,442,800	2,510,700	106,500	4.4%	1,171,800	1,278,300
Llundain	5,937,400	6,179,300	6,480,700	543,400	9.2%	3,041,900	3,585,300
Gogledd-ddwyrain Lloegr	1,189,300	1,208,800	1,251,000	61,700	5.2%	597,100	658,700
Gogledd-orllewin Lloegr	3,746,700	3,858,300	4,033,500	286,800	7.7%	1,868,700	2,155,500
De-ddwyrain Lloegr	4,834,100	4,964,000	5,153,100	319,000	6.6%	2,401,700	2,720,700
De-orllewin Lloegr	2,929,600	3,058,700	3,240,100	310,500	10.6%	1,498,700	1,809,200
Gorllewin Canolbarth Lloegr	2,903,100	2,990,500	3,107,300	204,200	7.0%	1,451,500	1,655,700
Swydd Efrog a Humber	2,741,000	2,772,100	2,849,400	108,400	4.0%	1,350,200	1,458,600
Y Deyrnas Unedig	34,975,000	36,022,300	37,567,900	2,592,900	7.4%	17,534,400	20,127,300

Ffynhonnell: [Labour market and skills projections: 2020 to 2035](#), Department for Education (2023).

Sylwer: mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu i'r cant agosaf, er bod y canrannau'n seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu.

4. Amcanestyniadau yn ôl sector diwydiannol

Mae canlyniadau Hanfodion Sgiliau yn seiliedig ar diffiniad o sectorau diwydiannol 6, 22 a 75. Mae'r papur hwn yn cynnwys canfyddiadau o ddiffiniadau sector 6 a 22, gydag amcanestyniadau ar gyfer y diffiniad o sector 75 hefyd ar gael drwy'r llyfrau gwaith. Am ragor o wybodaeth am ddiffiniadau sector, gweler Atodiad A.

Ar lefel sector eang (Tabl 4.1), rhagwelir mai gwasanaethau nad ydynt ar gyfer y farchnad fydd yn gweld y twf mwyaf rhwng 2020 a 2035. Mae hyn o ran lefelau cyflogaeth a'r newid canrannol (twf o 50,100, sy'n cyfateb i 11.4%), a rhagwelir mai'r sector fydd y mwyaf o hyd, sy'n cynnwys bron i draean y gyflogaeth (32.0% yn 2035). Rhagwelir twf cymharol fawr mewn Busnes a gwasanaethau eraill (7.6%), gyda thwf is yn cael ei ragweld mewn Masnach, Llety a thrafnidiaeth (3.8%), y sector cynradd a chyfleustodau (1.7%), ac Adeiladu (1.1%). Rhagwelir 12,500 o ostyngiad mewn cyflogaeth (8.6% o ostyngiad) ar gyfer Gweithgynhyrchu. Er y rhagwelir y bydd cyflogaeth ym maes Gweithgynhyrchu yn gostwng, bydd angen o hyd i weithwyr newydd gymryd lle'r rhai sy'n ymddeol, a rhagwelir y bydd y galw am weithwyr newydd yn y sector yn 58,100. Gan ystyried y gostyngiad mewn cyflogaeth a'r angen i gael gweithwyr yn lle'r rhai sy'n ymddeol, rhagwelir y bydd angen cyfanswm o 45,500 ar gyfer y sector rhwng 2020 a 2035. Mae'r galw am weithwyr newydd a chyfanswm y gofynion ar ei uchaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt ar gyfer y farchnad.

Gan symud at ddiffiniadau sector manylach (Tabl 4.2), y sector sydd â'r cynnydd disgwylidig mwyaf mewn cyflogaeth rhwng 2020 a 2035 yw lechyd a gwaith cymdeithasol, sydd â chynnydd rhagamcanol o 38,200, sy'n cyfateb i 17.4% o gynnydd. Hwn oedd y sector mwyaf yn 2020 a rhagwelir y bydd yn parhau felly yn 2035, gan dyfu'n llawer cyflymach na'r ail sector mwyaf, Cyfanwerthu a manwerthu (rhagamcan o dwf o 3,200 neu 1.5%). Y tu ôl i lechyd a gwaith cymdeithasol, mae'r cynnydd disgwylidig mwyaf yn y nifer a gyflogir ym meysydd Addysg (11,900), Llety a bwyd (10,700), Gwasanaethau proffesiynol (9,500) a Gwasanaethau cymorth (9,500). Ar sail canran, mae'r cynnydd disgwylidig mwyaf y tu ôl i lechyd a gwaith cymdeithasol i'w weld ym meysydd Dŵr a charthffosiaeth (16.1%), Cyllid ac yswiriant (15.5%), a Thechnoleg gwybodaeth (14.9%). Fodd bynnag, mae'r twf cyfunol ar gyfer y sectorau hyn (9,600) tua chwarter y cynnydd a ragwelir mewn lechyd a gwaith cymdeithasol yn unig oherwydd eu maint cymharol lai.

Rhagwelir dirywiad mewn cyflogaeth ar draws sawl sector, gan gynnwys Gweddill y sector gweithgynhyrchu (-9,300), Gwasanaethau eraill (-4,100), Peirianeg (-3,400), Eiddo tiriog (-1,500), a Mwyngloddio a chwarela (-800). Oherwydd yr angen i gael gweithwyr newydd yn lle'r rhai sydd wedi gadael y farchnad lafur, bydd galw parhaus yn y sectorau hyn rhwng 2020 a 2035. Fodd bynnag, yn achos Mwyngloddio a chwarela, mae maint y galw am weithwyr newydd yn debyg i faint y gostyngiad a ragwelir mewn cyflogaeth.

Mae amcanestyniadau twf sectoraidd yn tueddu i fynd i'r un cyfeiriad ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig, gydag ambell eithriad (Ffigur 4.1). Mae'r rhain yn cynnwys Cyllid ac yswiriant, y rhagwelir y bydd yn cynyddu yng Nghymru ond yn dirywio yn y Deyrnas Unedig; Eiddo tiriog, y rhagwelir y bydd yn dirywio yng Nghymru ond yn tyfu yn y Deyrnas Unedig; a Gwasanaethau eraill, y rhagwelir y byddant yn dirywio yng Nghymru ac yn aros yn gymharol ddigyfnewid yn y Deyrnas Unedig.

Tabl 4.1: Y newid a ragwelir mewn cyflogaeth yng Nghymru yn ôl sector eang, 2020 i 2035

	2020	2025	2035	Newid 2020-2035	% y newid 2020-2035	Galw am weithwyr newydd	Cyfanswm gofynion
<i>Lefelau</i>							
Y sector cynradd a chyfleustodau	74,200	74,200	75,400	1,200	1.7%	36,300	37,500
Gweithgynhyrchu	146,400	143,400	133,900	-12,500	-8.6%	58,100	45,500
Adeiladu	92,700	92,400	93,700	1000	1.1%	38,100	39,100
Masnach, llety a thrafnidiaeth	385,700	386,000	400,400	14,800	3.8%	184,600	199,400
Busnes a gwasanaethau eraill	312,500	319,400	336,400	23,900	7.6%	153,000	176,800
Gwasanaethau nad ydynt ar gyfer y farchnad	438,100	459,100	488,200	50,100	11.4%	240,300	290,400
Pob diwydiant	1449600	1474500	1528000	78400	5.4%	710,400	788,800
<i>Cyfranddaliadau (%)</i>							
Y sector cynradd a chyfleustodau	5.1	5.0	4.9				
Gweithgynhyrchu	10.1	9.7	8.8				
Adeiladu	6.4	6.3	6.1				
Masnach, llety a thrafnidiaeth	26.6	26.2	26.2				
Busnes a gwasanaethau eraill	21.6	21.7	22.0				
Gwasanaethau nad ydynt ar gyfer y farchnad	30.2	31.1	32.0				
Pob diwydiant	100.0	100.0	100.0				

Ffynhonnell: [Labour market and skills projections: 2020 to 2035](#), Department for Education (2023).

Sylwer: mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu i'r cant agosaf, er bod y canrannau'n seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu.

Tabl 4.2: Y newid a ragwelir mewn cyflogaeth yng Nghymru, yn ôl sector, 2020 i 2035


	2020	2025	2035	Newid 2020-2035	% y newid 2020-2035	Galw am weithwyr newydd	Cyfanswm gofynion
Amaethyddiaeth	52,900	53,000	53,600	700	1.3%	27,300	27,900
Cloddio a chwarela	2,400	2,000	1,600	-800	-34.4%	700	-100
Bwyd, diod a thybaco	22,100	22,800	22,300	200	0.7%	9,600	9,800
Peirianeg	19,800	19,500	16,400	-3400	-17.3%	7,800	4,400
Gweddill gweithgynhyrchu	104,500	101,200	95,200	-9300	-8.9%	40,600	31,400
Trydan a nwy	6,800	6,400	6,200	-600	-8.1%	2700	2,100
Dŵr a charthffosiaeth	12,100	12,800	14,100	1900	16.1%	5,600	7,500
Adeiladu	92,700	92,400	93,700	1000	1.1%	38,100	39,100
Masnach adwerthu a chyfanwerthu	216,100	217,300	219,300	3200	1.5%	100,400	103,700
Cludo a storio	47,300	47,800	48,100	800	1.7%	21,500	22,300
Llety a bwyd	122,300	120,900	133,000	10700	8.8%	62,700	73,400
Cyfryngau	6,300	6,200	6,300	-	-0.1%	3,000	2,900
Technoleg gwybodaeth	16,700	17,900	19,200	2500	14.9%	7,600	10,100
Cyllid ac yswiriant	33,200	35,500	38,300	5100	15.5%	17,200	22,300
Eiddo tirol	24,100	21,800	22,600	-1500	-6.2%	10,400	8,900
Gwasanaethau proffesiynol	81,000	85,100	90,500	9500	11.7%	41,700	51,200
Gwasanaethau cymorth	94,400	98,500	103,900	9500	10.1%	46,500	56,000
Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn	90,800	88,700	90,800	-	0.0%	42,900	42,900
Addysg	128,000	133,200	139,900	11900	9.3%	67,900	79,800
Iechyd a Gwaith Cymdeithasol	219,300	237,100	257,500	38200	17.4%	129,600	167,800
Y celfyddydau ac adloniant	27,700	28,400	30,500	2800	10.1%	13,700	16,500
Gwasanaethau eraill	29,000	25,900	24,900	-4100	-14.0%	13,000	8,900
Pob diwydiant	1,449,600	1,474,500	1,528,000	78,400	5.4%	710,400	788,800

Ffynhonnell: [Labour market and skills projections: 2020 to 2035](#), Department for Education (2023).

Nodiadau: mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu i'r cant agosaf, er bod y canrannau'n seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu.

Mae cysylltnod (-) yn dynodi bod y newid a ragwelir (cadarnhaol neu negyddol) rhwng 2020 a 2035 yn fwy na sero ond yn llai na 50.

Ffigur 4.1: Y newid a ragwelir mewn cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, yn ôl sector, 2020 i 2035



Disgrifiad o Ffigur 5.1: Siart far yn dangos y newid cyflogaeth a ragwelir yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig rhwng 2020 a 2035 fesul sector. Mae'r siart yn dangos, yn gyffredinol, bod y newid a ragwelir ar gyfer pob sector yn mynd i'r un cyfeiriad yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, gydag ambell eithriad. Mae'r siart yn dangos y bydd y twf rhagamcanol mwyaf yng Nghymru ym maes iechyd a gwaith cymdeithasol, ac ym maes Llety a bwyd yn y Deyrnas Unedig.

Ffynhonnell: [Labour market and skills projections: 2020 to 2035](#), Department for Education (2023).

Sylwer: mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu i'r cant agosaf, er bod y canrannau'n seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu.

5. Amcanestyniadau yn ôl galwedigaeth

Amlinellir diffiniadau o alwedigaethau a ddefnyddir yn yr amcanestyniadau yn Atodiad B. Rhagwelir y bydd y cyfnod rhwng 2020 a 2035 yn arwain at gynnydd mawr mewn cyflogaeth ar gyfer galwedigaethau sgiliau uwch yn y galwedigaethau Proffesiynol (21.9%) a Rheolwyr, cyfarwyddwyr a grwpiau uwch swyddogion (15.8%) (Tabl 5.1). Rhagwelir cynnydd llai hefyd ar gyfer gweithredwyr prosesau, offer a pheiriannau (12.1%), galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill (11.8%) a galwedigaethau proffesiynol cysylltiedig (5.7%). Rhagwelir dirywiad ar gyfer grwpiau galwedigaethol eraill, gyda'r uchaf ar gyfer galwedigaethau Elfennol (-11.7%) a galwedigaethau Gweinyddol ac ysgrifenyddol (-10.0%).

Mae grwpiau galwedigaethol â sgiliau uwch yn debygol o fynnu bod unigolion yn meddu ar gymwysterau lefel uwch. Mae'r cynnydd yn y tri grŵp galwedigaethol sy'n gysylltiedig â'r lefelau sgiliau uchaf (SOC 2020 Prif grwpiau 1 i 3) yn barhad o dueddiadau tymor hwy. Rhagwelir y bydd y grŵp hwn yn cyfrif am 44.9% o gyflogaeth yng Nghymru yn 2035 o'i gymharu â 40.7% yn 2020. Erbyn 2035, rhagwelir y bydd galwedigaethau proffesiynol yn cyfrif am bron i chwarter y gyflogaeth yng Nghymru (24.6%).

Gan edrych ar ddadansoddiad galwedigaethol manylach (Tabl 5.2), rhagwelir y bydd y cynnydd mwyaf mewn cyflogaeth o ran y niferoedd a gyflogir ym maes gweithwyr lechyd proffesiynol (23,000, sy'n cyfateb i 24.9% o gynnydd), Rheolwyr a pherchnogion eraill (17,900, 42.7%), Gweithwyr proffesiynol ym maes addysg ac addysgu (17,700, 19.3%), Gweithwyr proffesiynol ym maes busnes, y cyfryngau a gwasanaethau cyhoeddus (17,600, 25.5%), a Galwedigaethau gwasanaethau personol gofalu (17,000, 15.4%). Rhagwelir y bydd y cynnydd canrannol mwyaf mewn cyflogaeth ar gyfer galwedigaethau Gwasanaethau Cwsmeriaid, ar 46.2% (rhagwelir y bydd y twf yn 12,000).

Rhagwelir hefyd y bydd gwahaniaethau o fewn y categorïau Galwedigaethau mawr ehangach. Er enghraifft, rhagwelir y bydd y categori galwedigaethau Gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid ehangach (Grŵp Mawr Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2020 7) yn gweld 2.7% o ostyngiad, sy'n cyfateb i golli cyflogaeth 3,400 o bobl, ond mae hyn i raddau yn cuddio 15,400 (15.6%) o golled o alwedigaethau Gwerthu a 12,000 (46.2%) o enillion mewn galwedigaethau Gwasanaethau Cwsmeriaid.

Bydd pob galwedigaeth, hyd yn oed y rhai y rhagwelir y byddant yn dirywio, yn gofyn i bobl newydd ddod i'r galwedigaethau hyn i gymryd lle'r rhai sy'n gadael y farchnad lafur. Rhagwelir y bydd y galw am weithwyr newydd ar ei fwyaf mewn Galwedigaethau gwasanaethau personol gofal (66,500), Galwedigaethau gweinyddu a gwasanaethu elfennol (62,700), a Galwedigaethau gweinyddol (60,000).

Oherwydd y galw hwn am weithwyr newydd, mae cyfanswm y gofyniad yn gadarnhaol ar gyfer pob galwedigaeth. Rhagwelir y bydd cyfanswm y gofyniad rhwng 2020 a 2035 yng Nghymru ar ei uchaf ar gyfer:

- Galwedigaethau gwasanaethau personol gofal (83,500);
- Gweithwyr iechyd proffesiynol (77,200); ac
- Athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol (67,600).

Gan ddangos pwysigrwydd y galw am weithwyr newydd, rhagwelir y bydd gan alwedigaethau gweinyddol a gwasanaeth elfennol un o'r gofynion uchaf (51,300) er y rhagwelir y bydd 11,400 (8.5%) o ostyngiad mewn cyflogaeth. Mae hyn oherwydd galw am 62,700 o weithwyr newydd. Gellir gweld hyn hefyd mewn Galwedigaethau gweinyddol, y rhagwelir y bydd yn gostwng 14,000 (10.4%), ond mae ganddynt alw am 60,000 o weithwyr newydd yn eu lle a chyfanswm gofyniad o 46,000. Mae'r rhain ymysg y is-brif alwedigaethau mwyaf, felly byddid yn disgwyl galw mawr am weithwyr newydd.

Yn yr un modd â sectorau, mae amcanestyniadau deiliadaeth ar gyfer Cymru yn tueddu i fynd i'r un cyfeiriad â'r Deyrnas Unedig (Ffigur 5.1). Mae rhai eithriadau, fel swyddi hamdden, teithio a gwasanaethau personol cysylltiedig, a gyrwyr a gweithredwyr trafndiaeth a pheiriannau symudol, y rhagwelir y byddant yn dirywio yng Nghymru ond yn tyfu yn y Deyrnas Unedig.

Tabl 5.1: Y newid a ragwelir mewn cyflogaeth yng Nghymru, yn ôl Prif alwedigaeth, 2020 i 2035

	2020	2025	2035	Newid 2020-2035	% y newid 2020-2035	Galw am weithwyr newydd	Cyfanswm gofynion
<i>Lefelau</i>							
Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion	119,200	122,100	138,000	18,800	15.8%	66,500	85,300
Galwedigaethau proffesiynol	308,400	336,100	376,000	67,600	21.9%	164,500	232,100
Galwedigaethau proffesiynol cysylltiol	162,200	158,300	171,500	9,300	5.7%	74,800	84,000
Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol	165,300	156,100	148,800	-16,400	-10.0%	76,600	60,100
Galwedigaethau crefftau medrus	169,100	167,000	161,500	-7,700	-4.5%	69,900	62,200
Galwedigaethau gofal, hamdden a gwasanaethau eraill	138,100	146,300	154,400	16,300	11.8%	79,500	95,800
Galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid	124,300	121,900	120,900	-3,400	-2.7%	57,600	54,200
Gweithredwyr peiriannau, offer a phrosesau	103,400	116,400	115,900	12,500	12.1%	50,100	62,700
Galwedigaethau elfennol	159,500	150,300	140,900	-18,600	-11.7%	70,900	52,300
Pob galwedigaeth	1,449,600	1,474,500	1,528,000	78,400	5.4%	710,400	788,800
<i>Cyfranddaliadau (%)</i>							
Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion	8.2	8.3	9.0				
Galwedigaethau proffesiynol	21.3	22.8	24.6				
Galwedigaethau proffesiynol cysylltiol	11.2	10.7	11.2				
Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol	11.4	10.6	9.7				
Galwedigaethau crefftau medrus	11.7	11.3	10.6				
Galwedigaethau gofal, hamdden a gwasanaethau eraill	9.5	9.9	10.1				
Galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid	8.6	8.3	7.9				
Gweithredwyr peiriannau, offer a phrosesau	7.1	7.9	7.6				
Galwedigaethau elfennol	11.0	10.2	9.2				
Pob galwedigaeth	100.0	100.0	100.0				

Ffynhonnell: [Labour market and skills projections: 2020 to 2035](#), Department for Education (2023).

Sylwer: mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu i'r cant agosaf, er bod y canrannau'n seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu.


Tabl 5.2: Y newid a ragwelir mewn cyflogaeth yng Nghymru, yn ôl is-brif alwedigaeth, 2020 i 2035

	2020	2025	2035	Newid 2020- 2035	% y newid 2020-2035	Galw am weithwyr newydd	Cyfansw m y gofynion
11 Rheolwyr a chyfarwyddwyr corfforaethol	77,400	71,300	78,300	1,000	1.3%	37,300	38,300
12 Rheolwyr a pherchnogion eraill	41,800	50,700	59,700	17,900	42.7%	29,200	47,000
21 Gweithwyr proffesiynol ym meysydd gwyddoniaeth, ymchwil, peirianeg a thechnoleg	55,800	58,300	65,200	9,400	16.9%	22,500	31,900
22 Gweithwyr iechedd proffesiynol	92,300	102,400	115,300	23,000	24.9%	54,200	77,200
23 Athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol	91,400	99,400	109,100	17,700	19.3%	50,000	67,600
24 Gweithwyr proffesiynol ym meysydd busnes, y cyfryngau a gwasanaethau cyhoeddus	69,000	76,000	86,500	17,600	25.5%	37,800	55,300
31 Gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth, peirianeg a thechnoleg	24,500	21,200	22,500	-2,000	-8.3%	8,700	6,700
32 Gweithwyr proffesiynol iechedd a gofal cymdeithasol cyswllt	34,800	35,700	39,600	4,700	13.6%	20,800	25,500
33 Galwedigaethau gwasanaethau diogelu	16,600	19,000	21,400	4,700	28.5%	6,500	11,300
34 Galwedigaethau diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon	17,600	17,200	19,500	1,900	10.8%	8,300	10,200
35 Gweithwyr proffesiynol cyswllt busnes a gwasanaethau cyhoeddus	68,700	65,100	68,600	-100	-0.1%	30,400	30,300
41 Galwedigaethau gweinyddol	134,500	123,300	120,500	-14,000	-10.4%	60,000	46,000
42 Galwedigaethau ysgrifenyddol a chysylltiedig	30,800	32,800	28,300	-2,500	-8.1%	16,600	14,100
51 Crefftau amaethyddol medrus a chrefftau cysylltiedig	36,300	36,900	37,900	1,600	4.5%	19,000	20,600
52 Crefftau metel, trydanol ac electronig medrus	56,000	52,600	48,700	-7,200	-12.9%	19,400	12,200
53 Crefftau adeiladu medrus	45,000	46,000	43,000	-2,000	-4.5%	18,700	16,600
54 Tecstilau, argraffu a chrefftau medrus eraill	31,900	31,500	31,800	-100	-0.2%	12,900	12,800
61 Galwedigaethau gwasanaethau personol gofal	110,900	120,200	128,000	17,000	15.4%	66,500	83,500
62 Galwedigaethau hamdden, teithio a gwasanaethau personol cysylltiedig	25,600	24,800	25,200	-500	-1.8%	12,400	11,900
63 Galwedigaethau gorfodi cymunedol a sifil	1,600	1,300	1,300	-300	-18.9%	600	300
71 Galwedigaethau gwerthu	98,400	89,000	83,100	-15,400	-15.6%	42,400	27,000
72 Galwedigaethau gwasanaethau cwsmeriaid	25,900	32,900	37,900	12,000	46.2%	15,200	27,200
81 Gweithredwyr prosesau, offer a pheiriannau	68,300	81,400	82,100	13,800	20.2%	32,100	45,900
82 Gyrwyr a gweithwyr trafndiaeth a pheiriannau symudol	35,100	35,000	33,800	-1,200	-3.5%	18,000	16,800
91 Crefftau elfennol a galwedigaethau cysylltiedig	25,200	20,100	18,000	-7,200	-28.7%	8,300	1,000
92 Galwedigaethau gweinyddu a gwasanaethu elfennol	134,300	130,200	122,900	-11,400	-8.5%	62,700	51,300
Pob galwedigaeth	1,449,600	1,474,500	1,528,000	78,400	5.4%	710,400	788,800

Ffynhonnell: [Labour market and skills projections: 2020 to 2035](#), Department for Education (2023).

Sylwer: mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu i'r cant agosaf, er bod y canrannau'n seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu.

Ffigur 5.1: Y newid a ragwelir mewn cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, yn ôl is-brif alwedigaeth, 2020 i 2035



Disgrifiad o Ffigur 5.1: Siart far yn dangos y newid cyflogaeth a ragwelir yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig rhwng 2020 a 2035 yn ôl is-brif alwedigaeth. Mae'r siart yn dangos, yn gyffredinol, bod y newid a ragwelir ar gyfer pob galwedigaeth yn mynd i'r un cyfeiriad yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, gydag ambell eithriad. Mae'r siart yn dangos y twf rhagamcanol mwyaf yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig mewn Galwedigaethau gwasanaethau cwsmeriaid.

Ffynhonnell: [Labour market and skills projections: 2020 to 2035](#), Department for Education (2023).

Sylwer: mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu i'r cant agosaf, er bod y canrannau'n seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu.

6. Amcanestyniadau yn ôl cymhwyster


Er y gellir defnyddio lefel galwedigaeth fel procsi ar gyfer sgiliau, mae hefyd yn bosibl edrych ar sut rhagwelir y bydd lefelau cymwysterau'r rhai sydd mewn cyflogaeth yn newid rhwng 2020 a 2035.

Mae Ffigur 6.1 a Thabl 6.1 yn dangos y newidiadau y rhagwelir y byddant yn digwydd rhwng 2020 a 2035. Gellir gweld bod cymwysterau lefel uwch yn dal i ehangu ymhlith y rhai sydd mewn gwaith. Rhwng 2020 a 2035, amcanestynnir y bydd cyfran y rhai mewn cyflogaeth sydd wedi cymhwyso ar lefel 6 ar y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig yn cynyddu o 17.2% i 21.7%. Rhagwelir hefyd y bydd cynnydd yng nghyfran y bobl mewn cyflogaeth sydd â chymwysterau sy'n uwch na lefel 6 ar y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig, a rhagwelir y bydd y gyfran â lefel 7 ar y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig yn cynyddu o 12.4% i 19.1% ac y bydd y gyfran â lefel 8 ar y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig yn cynyddu o 2.0% i 3.1%. Mae hyn yn golygu y rhagwelir erbyn 2035 y bydd gan 43.9% o'r rhai sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru gymwysterau ar lefel 6 neu uwch ar y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig, i fyny o 31.6% yn 2020. O ran lefel 4 ar y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig ac uwch, rhagwelir y bydd 55.4% o'r rhai sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru yn meddu ar y cymwysterau hyn yn 2035 o gymharu â 42.0% yn 2020.

Mae'r effaith groes i'w gweld yn achos y rhai sydd â chymwysterau lefel is neu sydd heb gymwysterau o gwbl. Amcanestynnir gostyngiadau mawr yng nghyfran y rhai mewn cyflogaeth yng Nghymru sy'n meddu ar Lefel 2 (22.6% i 16.4%) a Lefel 1 (11.7% i 6.8%) ar y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig, tra rhagwelir gostyngiadau mwy cymedrol yng nghyfran y bobl gyflogedig sy'n meddu ar Lefel 3 ar y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig (19.8% i 17.9%) a'r rhai nad oes ganddynt gymwysterau (4.0% i 3.5%).

Er y rhagwelir gostyngiad mawr yng nghyfran a nifer y rhai mewn cyflogaeth nad oes ganddynt gymwysterau neu lefel isel o gymwysterau, mae'n werth nodi y bydd angen gofynion amnewid sylweddol o hyd yn y meysydd hyn. Rhagwelir y bydd gan bob lefel o gymhwyster gyfanswm gofyniad cadarnhaol, ac eithrio lefel 1 y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig.

Ffigur 6.1: Amcanestyniadau o gyflogaeth yn ôl lefel cymhwyster 2020 i 2035



Disgrifiad o Ffigur 6.1: Siart golofn pentwr 100% sy'n dangos sut rhagwelir y bydd y gymysgedd o gyflogaeth yn ôl lefel cymhwyster yn amrywio ar draws 2020, 2025 a 2035. Mae hyn yn dangos y rhagwelir y bydd cyfran y bobl mewn cyflogaeth sydd â chymwysterau uwch yn cynyddu, tra rhagwelir y bydd y gyfran mewn cyflogaeth sydd â chymwysterau is neu ddim cymwysterau yn gostwng.

Ffynhonnell: [Labour market and skills projections: 2020 to 2035](#), Department for Education (2023).

Sylwer: FfCRh1 yn cyfeirio at Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig.

Tabl 6.1: Y newid a ragwelir yn lefel cymwysterau'r rhai sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru, 2020 i 2035

	2020	2025	2035	Newid 2020-2035	% y newid 2020-2035	Galw am weithwyr newydd	Cyfanswm gofynion
<i>Lefelau</i>							
FfCRh8 Doethuriaeth	28,500	32,700	46,900	18,400	64.4%	16,400	34,800
FfCRh7 Gradd uwch arall	179,500	202,400	291,900	112,400	62.6%	106,200	218,600
FfCRh6 Gradd gyntaf	249,500	291,300	331,800	82,300	33.0%	171,900	254,200
FfCRh5 Gradd sylfaen; Nyrsio; Addysgu	77,500	81,400	84,600	7,100	9.1%	44,900	52,000
FfCRh4 Addysg uwch islaw lefel gradd	73,500	80,900	91,100	17,600	24.0%	44,700	62,400
FfCRh3 Safon Uwch a chyfwerth	286,400	288,900	273,600	-12,800	-4.5%	128,800	116,000
FfCRh2 TGAU (A-C) a chyfwerth	327,000	283,500	250,800	-76,200	-23.3%	126,500	50,300
FfCRh 1 TGAU (is na gradd C) a chyfwerth	169,200	149,900	104,100	-65,100	-38.5%	53,500	-11,600
Dim cymhwyster	58,500	63,300	53,100	-5,300	-9.1%	17,400	12,100
Pob cymhwyster	1,449,600	1,474,500	1,528,000	78,400	5.4%	710,400	788,800
<i>Cyfranddaliadau (%)</i>							
FfCRh8 Doethuriaeth	2.0	2.2	3.1				
FfCRh7 Gradd uwch arall	12.4	13.7	19.1				
FfCRh6 Gradd gyntaf	17.2	19.8	21.7				
FfCRh5 Gradd sylfaen; Nyrsio; Addysgu	5.3	5.5	5.5				
FfCRh4 Addysg uwch islaw lefel gradd	5.1	5.5	6.0				
FfCRh3 Safon Uwch a chyfwerth	19.8	19.6	17.9				
FfCRh2 TGAU (A-C) a chyfwerth	22.6	19.2	16.4				
FfCRh1 TGAU (is na gradd C) a chyfwerth	11.7	10.2	6.8				
Dim cymhwyster	4.0	4.3	3.5				
Pob cymhwyster	100.0	100.0	100.0				

Ffynhonnell: [Labour market and skills projections: 2020 to 2035](#), Department for Education (2023).

Sylwer: mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu i'r cant agosaf, er bod y canrannau'n seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu.

7. Casgliadau

Mae amcanestyniadau cyflogaeth Hanfodion Sgiliau yn darparu amcanestyniadau o gyflogaeth hyd at 2035. Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg byr o'r canfyddiadau ar gyfer Cymru, ond mae cyfoeth o fanylion pellach ar gael yn yr adroddiadau a'r llyfrau gwaith a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Ymchwil Cyflogaeth a Cambridge Econometrics dan arweiniad y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysgol, ac a gyllidwyd gan Sefydliad Nuffield ac, yn achos y rhagamcaniadau rhanbarthol, yr Adran Addysg.

Mae amcanestyniadau'n awgrymu symud parhaus tuag at gymwysterau uwch a galwedigaethau â sgiliau uwch, yn enwedig galwedigaethau Proffesiynol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd rhai galwedigaethau sgiliau is yn dangos twf, gyda Galwedigaethau gwasanaeth personol gofalu, Galwedigaethau gwasanaethau cwsmeriaid a Gweithredwyr prosesau, offer a pheiriannau yn dangos twf arbennig o uchel.

Hyd yn oed mewn sectorau a galwedigaethau lle rhagwelir y bydd y nifer mewn cyflogaeth yn gostwng, bydd angen o hyd am weithwyr newydd i gymryd lle'r rhai sydd wedi gadael y farchnad lafur.

Er y dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio data amcanestyniadau ac y dylid nodi cafeatau perthnasol, yn enwedig o ystyried y cyfnod ansicr pan gynhyrchwyd yr amcanestyniadau hyn, mae llawer o'r newidiadau a ragwelir yn debygol o fod mewn ymateb i dueddiadau tymor hir mewn demograffeg (y cynnydd mewn galwedigaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal) a newid technolegol (y gostyngiad mewn galwedigaethau Gweinyddol ac ysgrifenyddol).

Atodiad A: Diffiniadau sector

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r diffiniad o chwe sector eang a ddefnyddir yn Hanfodion Sgiliau yn cyd-fynd â'r system sector 22 wedi ei dadgyfuno sydd hefyd yn cael ei defnyddio.

Tabl A.1: Diffiniadau sector

6 Sector Eang		22 Sector	
Nifer	Enw	Nifer	Enw
1	Y sector cynradd a chyfleustodau	1	Amaethyddiaeth
		2	Cloddio a chwarela
		6	Trydan a nwy
		7	Dŵr a charthffosiaeth
2	Gweithgynhyrchu	3	Bwyd, diod a thybaco
		4	Peirianeg
		5	Gweddill gweithgynhyrchu
3	Adeiladu	8	Adeiladu
4	Masnach, llety a thrafnidiaeth	9	Masnach adwerthu a chyfanwerthu
		10	Cludo a storio
		11	Llety a bwyd
5	Busnes a gwasanaethau eraill	12	Cyfryngau
		13	Technoleg gwybodaeth
		14	Cyllid ac yswiriant
		15	Eiddo tirol
		16	Gwasanaethau proffesiynol
		17	Gwasanaethau cymorth
		21	Y celfyddydau ac adloniant
		22	Gwasanaethau eraill
6	Gwasanaethau nad ydynt ar gyfer y farchnad	18	Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn
		19	Addysg
		20	Iechyd a gwaith cymdeithasol

Atodiad B: Diffiniadau galwedigaeth

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r diffiniad o naw galwedigaeth eang (Grŵp Mawr SOC 2020) a ddefnyddir yn Hanfodion Sgiliau yn cyd-fynd â'r system 26 o alwedigaethau wedi eu dadgyfuno a ddefnyddir hefyd (Is-brif grŵp SOC 2020).

Tabl B.1: Diffiniadau galwedigaeth

9 Galwedigaeth eang		26 Galwedigaeth	
SOC 2020 Cod Prif Grŵp	Enw	SOC 2020 Cod yr Is- brif grŵp	Enw
1	Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion	11	Rheolwyr a chyfarwyddwyr corfforaethol
		12	Rheolwyr a pherchnogion eraill
2	Galwedigaethau proffesiynol	21	Gweithwyr proffesiynol ym meysydd gwyddoniaeth, ymchwil, peirianneg a thechnoleg
		22	Gweithwyr iechyd proffesiynol
		23	Athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol eraill
		24	Gweithwyr proffesiynol ym meysydd busnes, y cyfryngau a gwasanaethau cyhoeddus
3	Galwedigaethau proffesiynol cysylltiol	31	Gweithwyr proffesiynol cysylltiol gwyddoniaeth, peirianneg a thechnoleg
		32	Gweithwyr proffesiynol cysylltiol iechyd a gofal cymdeithasol
		33	Galwedigaethau gwasanaethau diogelu
		34	Galwedigaethau diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon
		35	Gweithwyr proffesiynol cysylltiol busnes a gwasanaethau cyhoeddus
4	Gweinyddol ac ysgrifenyddol	41	Galwedigaethau gweinyddol
		42	Swyddi ysgrifenyddol a chysylltiedig
5	Galwedigaethau crefftau medrus	51	Crefftau amaethyddol medrus a chrefftau cysylltiedig
		52	Crefftau metel, trydanol ac electronig medrus
		53	Crefftau adeiladu medrus
		54	Tecstilau, argraffu a chrefftau medrus eraill
6	Gofal, hamdden a gwasanaethau eraill	61	Galwedigaethau gwasanaeth personol gofalgarg
		62	Galwedigaethau hamdden, teithio a gwasanaethau personol cysylltiedig
		63	Galwedigaethau gorfodi sifil a chymunedol
7	Gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid	71	Galwedigaethau gwerthu
		72	Galwedigaethau gwasanaethau cwsmeriaid
8	Gweithredwyr peiriannau, offer a phrosesau	81	Gweithredwyr peiriannau, offer a phrosesau
		82	Gyrwyr a gweithwyr trafndiaeth a pheiriannau symudol
9	Galwedigaethau elfennol	91	Crefftau elfennol a galwedigaethau cysylltiedig
		92	Galwedigaethau gweinyddu a gwasanaethu elfennol